COFNODION CYFARFOD Y CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY DIMAU MICROSOFT DYDD GWENER, 11 MEHEFIN 2021, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | G Cox | S Edwards | G Hopkins |
| G John | AA Pucella | JC Spanswick | R Turner |
| E Venables | JE Williams | RE Young | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Spanswick a E Venables

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Eilish Thomas | Rheolwr Cyllid – Rheoli Ariannol a Chau |

88. ETHOL CADEIRYDD (O BLITH AELODAU CYNGOR BWRDEISTREF BRO MORGANNWG)

PENDERFYNIAD: Cynigiwyd y dylid penodi'r Cynghorydd G John yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo am y flwyddyn ddilynol, a secondiwyd hynny a'i weithredu yn unfrydol.

Daeth y Cynghorydd G John i'r Gadair.

89. ETHOL IS-GADEIRYDD (O BLITH AELODAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR)

PENDERFYNIAD: Cynigiwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Pucella yn Is-gadeirydd Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo am y flwyddyn ddilynol, a secondiwyd hynny a'i weithredu yn unfrydol.

90. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

91. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNIAD: Bod Cofnodion y cyfarfod o Gyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo ar 5 Mawrth 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

92. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O AMCANION CYNLLUN BUSNES 2020/21

Cyflwynodd y Clerc a'r Swyddog Technegol adroddiad, a'i ddiben oedd cynghori'r Cydbwyllgor ar berfformiad Amlosgfa Llangrallo yn ystod 2020/21, fel rhan o'r uchod. Rhoddodd gyflwyniad cryno i'r adroddiad cyn rhoi'r awenau i'r Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd i ymhelaethu ar rywfaint o fanylion y cynnwys.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd fod Atodiad A i'r adroddiad yn nodi perfformiad Amlosgfa Llangrallo mewn perthynas â, yn benodol:

- Nifer yr amlosgiadau
- Safonau gwasanaeth
- Gwariant a gynlluniwyd
- Cyflawni amcanion y Cynllun Busnes

O ran nifer yr amlosgiadau ar gyfer 2020/21, cadarnhaodd mai’r cyfanswm oedd 2,086, a bod hyn yn cynnwys amlosgiadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf ac 'eraill'.

Roedd hyn yn gynnydd ar y 1,670 o amlosgiadau o gymharu â’r flwyddyn flaenorol, a hynny yn bennaf oherwydd marwolaethau ychwanegol o ganlyniad i effaith drychinebus pandemig Covid-19.

O ganlyniad i'r amlosgiadau ychwanegol a gynhaliwyd, ym mis Mawrth 2021 cyflogodd yr Amlosgfa ddau aelod staff ychwanegol i gynorthwyo â’r gwaith ychwanegol a ddaeth yn sgil y pandemig, bu aelodau staff yn gweithio'n eithriadol o galed ar sail dwy sifft, gan ymgymryd ag oriau ychwanegol i ymdopi â'r cynnydd yn nifer yr amlosgiadau.

Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd hefyd yn falch o gadarnhau bod yr Amlosgfa wedi sicrhau Gwobr Baner Werdd arall, a hynny am yr unfed flwyddyn ar ddeg yn olynol.

O ran boddhad y cyhoedd ar berfformiad yr Amlosgfa yn ystod y cyfnod uchod, gwelwyd lefel bodlonrwydd o safon dda neu ragorol ar y cyfan, h.y. gan gael ei gynnal ar 100% mewn holiaduron a gwblhawyd ac a ddychwelwyd.

Roedd adran nesaf yr Atodiad yn cynnwys manylion y gwariant ar gyfer gwaith a gynlluniwyd yn 2020/21, lle cadarnhaodd y rhaglen fod tri phrosiect wedi'u gohirio tan 2021/22 oherwydd y pandemig, sef y Goleuadau Allanol, yr estyniad i’r Cwrt Blodau, a’r gwaith o uwchraddio System Cerddoriaeth a Chyfryngau'r Capel.

Roedd y tabl yn yr Atodiad â’r enw Asesiad ac Adolygiad Cynllun Busnes 2020/21 yn cadarnhau fod y gwaith arall a gynlluniwyd ar gyfer eleni wedi'i gwblhau. Roedd hyn yn ymwneud â Byrddau Dosbarthu Trydanol a chamau gweithredu arfaethedig fel y'u cynhwysir yn Strategaeth Cyllideb yr Amlosgfa.

PENDERFYNIAD: Bod y Cyd-bwyllgor wedi nodi'r adroddiad.

93. DATGANIAD CYFRIFYDDU BLYNYDDOL 2020-21

Cyflwynodd y Trysorydd adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol nad oedd wedi’i archwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 i'r Cydbwyllgor, ac i geisio cymeradwyaeth i gyflwyno'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol ar gyfer Amlosgfa Llangrallo i Archwilio Cymru.

O dan Reoliad 14 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, mae'n ofynnol i Gyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo gwblhau Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol gan eu bod yn cael eu hystyried yn gorff llywodraeth leol llai, gydag incwm a gwariant blynyddol o dan £2.5 miliwn.

Rhaid i'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol ardystiedig gael ei gyhoeddi erbyn 30 Medi.

Dangosodd Adran 1 o'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol (a atodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad), fod Amlosgfa Llangrallo yn 2020-21 wedi gwneud gwarged net o £845,231 (y gwahaniaeth rhwng Llinell 1 'Balansau a ddygwyd ymlaen' a Llinell 7 'Balansau a gariwyd ymlaen'). Mae'r gwarged wedi'i ychwanegu at gronfa gronnol yr Amlosgfa a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2020, gan ddod â chyfanswm y gronfa honno i £2,898,883 ar 31 Mawrth 2021 o'i gymharu â £2,053,652 yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd Tabl 1 ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad yn dangos crynodeb o'r sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer yr Amlosgfa ar gyfer 2020-21 o'i gymharu â'r gyllideb a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Rhoddwyd eglurhad o’r amrywiannau mwy sylweddol o'r gyllideb ar ffurf pwyntiau bwled ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad, a manylodd y Rheolwr Cyllid, Rheolaeth Ariannol a Chau arnynt yn ystod cyfarfod.

Roedd Tabl 2 isod yn yr adran hon o'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad o'r Gyllideb Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd ynghyd â'r Alldro a'r Amrywiannau ar gyfer 2020-21. Ychwanegodd y Rheolwr Cyllid, Rheolaeth Ariannol a Chau fod rhai o fanylion y rhain wedi'u rhannu ag Aelodau'r Cydbwyllgor yn yr eitem flaenorol ar yr agenda, gan gynnwys tanwariant ar brosiectau penodol a oedd wedi'u gohirio o ganlyniad i'r pandemig.

Yn ogystal â'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol, darparwyd Mantolen atodol yn Nhabl 3 a ddangosir yn yr adroddiad. Roedd y wybodaeth atodol hon yn rhoi dadansoddiad pellach o'r ffigurau a gofnodwyd yn y Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol. Roedd hyn er gwybodaeth i'r Aelodau yn unig, ac nid oedd yn destun archwiliad ar ddiwedd y flwyddyn.

Darparwyd rhagor o wybodaeth i egluro'r balansau ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD: | Bod y Cydbwyllgor yn cymeradwyo’r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol ar gyfer Amlosgfa Llangrallo 2020-21 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a gofynnwyd i Gadeirydd y Cyd-bwyllgor lofnodi'r Datganiad Cyfrifyddu Blynyddol. |

94. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 15:02